

# Llais Bro Aled



Dydd Sul, 28 Mehefin 2020

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Mae enwau yn bwysig, ac mae yna fwy nag un peth yn cadarnhau hynny. Ydych chi erioed wedi profi'r cywilydd o anghofio enw rhywun yr ydych yn eu hadnabod yn iawn, mewn ffordd sy'n gwbl amlwg i bawb sy'n rhan o'r sgwrs! Neu beth am deimlo braidd yn chwithig wrth orfod cyfaddef i bobl o wlad arall nad ydych chi'n hollol siŵr beth mae'ch enw yn ei olygu! Yn ystod yr wythnos hon, mae deiseb wedi bod yn cynyddu mewn nifer yn galw ar i'r Senedd yng Nghaerdydd warchod enwau Cymraeg ar dai Cymru. Ac mae'r alwad yn un synhwyrol yn fy nhyb i, gan fod nifer o enwau tai a lleoliadau yng Nghymru yn hanesyddol ac yn ddisgrifiadol. Ydi hynny'n wir am eich cartref chi?

O droi at y Beibl, gwelwn fod enwau yn bwysig eithriadol yno hefyd – darllenwch Genesis 29 a 30 i wybod beth yw'r rheswm am y gwahanol enwau a roddwyd ar ddeuddeg mab Jacob! A beth am enw Iesu Grist? Efallai nad ydym wedi meddwl o'r blaen am enw Iesu, ond o'r cychwyn mae'n amlwg fod arwyddocâd arbennig iddo fel mae'r angel yn awgrymu wrth siarad hefo Joseff ym Mathew 1:21 (beibl.net) “Rwyt i roi'r enw Iesu iddo, am mai fe fydd yn achub ei bobl o'u pechodau.”

Ystyr yr enw Iesu yw 'Y mae'r Arglwydd yn achub', yr un fath â'r enw Josua. Ac felly mae'n enw cwbl addas i fab Mair gan mai trwyddo Ef y mae'r Arglwydd yn achub pobl o bob rhan o'r byd. Yn yr Hen Destament arweiniodd Josua bobl Dduw i mewn i wlad yr addewid er gwaethaf pob rhwystr. Ac mae'r Testament Newydd yn ein cyflwyno i fuddugoliaeth hyd yn oed yn fwy bendigedig. Trwy fywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu, gwnaed yn siŵr y byddai pawb sy'n credu ynddo yn cael etifeddu'r addewidion a roddwyd i Abraham (Galatiaid 3:29).

Iesu yw'r Achubwr – dyna neges glir y Testament Newydd, ond beth mae Crist yn ei olygu? Yn wahanol i'r hyn mae nifer yn ei feddwl, nid cyfenw yw Crist ond teitl eithriadol o bwysig. Crist yw'r cyfieithiad o'r gair Hebraeg Meseia, hynny yw 'un y mae Duw wedi ei eneinio'. Felly mae Iesu yn achubwr ac yn Feseia – yn Waredwr ac yn was! Dylem ryfeddu wrth ystyried pwy yw Iesu, a diolch o waelod calon am iddo ddod i'r byd i'n caru a'n cadw! Ydym ni wedi ymddiried yn Iesu Grist? “Llawenhewch oherwydd fod eich enwau wedi eu hysgrifennu yn y nefoedd.” (Luc 10:20 (BCN)).

*Rhodri*

# *Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion*

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Dilys Roberts (Henllan) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei brawd, Billy, ddechrau'r wythnos hon. Hyderwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt hwy ac eraill o'n plith sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ddiweddar. Cyflwynwn y teuluoedd hyn i ofal yr Arglwydd a gweddiwn y byddant yn profi nerth a chynhaliaeth Duw ei hun yn ddigon dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn.

Mae'n dda cael adrodd fod Eirlys Owen (Llanefydd) a Falmai Evans (Saron) bellach wedi cael dod adre. Diolchwn am y gofal mae'r ddwy wedi ei dderbyn yn y gwahanol ysbytai dros yr wythnosau diwethaf. Parhawn i'w cofio yn ein gweddiâu, a hyderwn y byddant yn parhau i gryfhau ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.

Anfonwn ein cofion hefyd at ein cyfeillion sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Mair Williams (Llansannan); Mrs Gwyneth Griffiths a Mrs Gwenllian Jones (Henllan). Gweddiwn eu bod hwythau yn profi nerth a daioni Duw yn ddyddiol, ac edrychwn ymlaen at yr amser pan fydd hi'n ddiogel i ni gael mynd i ymweld â nhw unwaith eto.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mairwen Morris (Nantglyn) a Heddwyn Davies (Llansannan) ar ddatlu penblwydd arbennig!

Llongyfarchiadau hefyd i Elen ac Alwyn Roberts (Llansannan) ar enedigaeth mab bach, Gwil. Dymunwn fendith Duw ar y teulu bach a diolchwn am Ei ddaioni tuag atynt.

*Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydychen angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.*

## *Adnoddau Addoli*

Mae'r un adnoddau addoli ag sydd wedi bod yn cael eu cyhoeddi yn Llais Bro Aled yn ddiweddar yn parhau ar gael. Cofiwch gysylltu os hoffech dderbyn unrhyw rai ohonynt.

## *Manylion Cyswllt*

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (8<sup>ed</sup>), os gwelwch yn dda.